PWYLLGOR YMGYNGHOROL RHIANTA CORFFORAETHOL

DYDD MAWRTH, 17 GORFFENNAF 2018

| | |
|---|---|
| Yn bressenol: | Cynghorydd Merry(Cadeirydd) |
| | Cynghorwyr Bowden, Hinchey, Jenkins, Lent, Lister, Molik a/ac Weaver |

**Newidiwyd y cofnodion hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 18 Medi. Mae'r newid wedi'i amlygu mewn llythrennau trwm ac italig.**

1 : YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr Tim Davies, Irfan Alam a Sureen Kutubi.

Rhoddodd y Cynghorwyr Lent a Jenkins wybod y byddent yn hwyr i'r cyfarfod oherwydd ymrwymiadau eraill.

2 : DATGANIADAU O FUDDIANT

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Fenella Bowden i'r Pwyllgor.

3 : COFNODION

Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai yn gofnod cywir, ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

4 : ADRODDIAD YMCHWILIAD ALLAN O'R WLAD

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Lee Bridgeman (Cadeirydd, Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc) i'r Pwyllgor i gyflwyno'r adroddiad yn dilyn Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen wedi'i wneud gan aelodau o'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc. Cyflwynwyd i'r Cabinet ar 5 Gorffennaf a disgwylir sylwadau gan y Cabinet ym mis Hydref.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhad pellach ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Canmolodd yr Aelodau'r adroddiad a baratowyd o ganlyniad i'r Ymchwiliad Gorchwyl a Gorffen.

- Nododd yr Aelodau y derbyniwyd tystiolaeth yn ystod yr ymchwiliad gan nifer i dystion allanol gan gynnwys Voices from Care a Gofal Maeth Cymru. Yn bendant, mae rhai o'r bobl aeth o Voices from Care bellach yn gweithio ond roeddent yn derbyn gofal yn y gorffennol.

- Mynegodd yr Aelodau bryderon y gall anghysondeb mewn addysg

darfu ar y rhai hynny wedi'u lleoli y tu allan i'r sir, rhoddwyd enghraifft o berson ifanc yn cael ei leoli y tu allan i'r sir a pheidio â gallu cael mynediad at ddarpariaeth addysg am 6 mis ar ôl hynny.

- ***Bydd yr aelodau yn nodi'r swm cynyddol o arian wedi'i neilltuo i gyllideb y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer 2018-19 sef £7.2m i helpu gyda y twf cynyddol am wasanaethau i bobl agored i niwed. Dyrennir yr rhan fwyaf o'r arian ychwanegol hwn (£5.6m neu gynnydd o 11.8%) i'r Gwasanaethau Plant i gynorthwyo gyda'r cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal sy'n cael eu gweld ledled Cymru a'r DU.***

- Atgoffwyd yr Aelodau am y wybodaeth a roddwyd gan seicolegydd a rhoddodd gyflwyniad yn flaenorol yn nodi bod tystiolaeth yn awgrymu bod plentyn neu berson ifanc yn fwy tebygol o ddioddef o broblemau iechyd meddwl os yw wedi bod mewn nifer o leoliadau gwahanol yn ystod ei amser yn derbyn gofal. Mae bellach gan BIP raglen waith allweddol a byddai'n gofyn bod adrannau amrywiol yn cydweithio.

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

5 : TRACIWR RHITHWIR CAERDYDD

Rhoddodd Gill James (Arweinydd Cyflawniad, Cau'r Bwlch) gyflwyniad i'r Aelodau am y Traciwr Rhithwir; system dracio ganolog sy'n tracio cynnydd Plant sy'n Derbyn Gofal ni waeth yr ysgol y maent ynddi.

Yn ystod y cyflwyniad hwnnw, rhoddwyd gwybodaeth i'r Aelodau am Capita One, sy'n gronfa ddata y Gwasanaethau Plant sy'n gweithio ar y cyd â SIMS mewn ysgolion ac sydd â'r nod o roi darlun unigol o'r disgybl i Staff yr Awdurdod Lleol. Mae'n gweithredu fel cofrestr ysgol, taflen wybodaeth disgyblion ac yn rhoi gwybodaeth am bresenoldeb, absenoldeb, gwaharddiadau a chyrhaeddiad.

Gwahoddwyd y Pwyllgor i wneud sylw, gofyn cwestiwn neu ofyn am eglurhad pellach ar y wybodaeth a dderbyniwyd. Mae'r trafodaethau hynny wedi eu crynhoi isod:

- Croesawyd yr Aelodau gyflwyniad y traciwr, ond holodd am swm yr adnoddau. Cadarnhaodd Swyddogion bod y Grant Amddifadedd Disgyblion sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal yn cael ei weinyddu gan y consortia; mae ysgolion yn gweithio mewn clystyrau ac yn tendro am gyllid.

- Cyfeiriodd yr Aelodau at yr angen am rannu gwybodaeth da, yn enwedig gydag iechyd. Nodwyd nad oes gan y MASH fynediad at gynlluniau iechyd meddwl plant, ond dywedodd y Pwyllgor fod grŵp project wedi'i sefydlu i ystyried dull mwy cydweithredol.

PENDERFYNWYD – nodi'r cyflwyniad a'r sylwadau wedi'u gwneud gan yr Aelodau.

6 : DIWEDDARIAD FFRYDIAU GWAITH AELODAU

Diweddarodd yr Aelodau y Pwyllgor ar eu llifau gwaith.

- Dywedodd y Cynghorydd Bowden y byddai'n croesawu'r cyfle o ymgymryd â'r thema Addysg a arweiniwyd yn flaenorol gan y Cynghorydd Walker.

- Nododd swyddogion, mewn perthynas â llif gwaith y Cynghorydd Molik, y gofynnir am adroddiad blynyddol gan y Ganolfan Adnoddau Pobl Ifanc i alluogi'r Pwyllgor i ddeall yr help sy'n cael ei roi i'r teulu.

  Rhoddwyd Adroddiad Briffio i'r Aelodau yn nodi gwybodaeth am y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal fel y gofynnwyd gan arweinydd llif gwaith ataliaeth.

- Dywedodd y Cynghorydd Lister y byddai'r ceisio trafod y Cylch Gorchwyl gyda'r Cadeirydd a'r Uwch Reolwyr yn y Gwasanaethau Plant i sicrhau bod gwaith y Pwyllgor yn realistig ac yn cael ei wneud.

- Trafododd yr Aelodau nifer y cyfarfodydd ac awgrymodd y dylid cynyddu cyfarfodydd i 6 y flwyddyn. Roedd yr Aelodau yn fodlon i gyfarfod ychwanegol gael ei ychwanegu ym mis Medi i Swyddogion gyflwyno'r Arolwg Lleoedd Llachar a'r Cynllun Gweithredu.

- Mynegodd yr Aelodau bryder mai dim ond traean o aelodau etholedig wedi cwblhau hyfforddiant gorfodol, gofynnodd yr Aelodau fod yr aelodau'n cael eu hatgoffa am yr angen i gwblhau'r hyfforddiant hwn.

7 : DIWEDDARIAD YMWELIADAU AELODAU

Ni chyhoeddir adroddiadau'r eitem hon gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 12 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD - y câi'r cyhoedd eu heithrio tra bod yr eitem hon yn cael ei hystyried.

8 : ADRODDIAD AR GWYNION A CHANMOLIAETH CHWARTER 4

PENDERFYNWYD - nodi'r adroddiad.

9 : ADRODDIAD PERFFORMIAD CHWARTER 4

Ni chyhoeddir atodiad 1 yr adroddiad gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 12 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD –

- y câi'r cyhoedd eu heithrio tra bod yr eitem yn cael ei hystyried.
- cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

10 : ADRODDIADAU RHEOLIAD 32 CROSSLANDS

Ni chyhoeddir adroddiadau'r eitem hon gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 12 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD –

- y câi'r cyhoedd eu heithrio tra bod yr eitem yn cael ei hystyried.
- Bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

11 : ADRODDIADAU RHEOLIAD 32 TŶ STORRIE

Ni chyhoeddir adroddiadau'r eitem hon gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth o'r math a ddisgrifir ym Mharagraff 12 Rhan 4 a pharagraff 21 Rhan 5 Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972.

PENDERFYNWYD –

- y câi'r cyhoedd eu heithrio tra bod yr eitem yn cael ei hystyried.
- Bod cynnwys yr adroddiad yn cael ei nodi.

12 : EITEMAU BRYS (OS OES UN)

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

13 : DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF.

Cyfarfod nesaf y Pwyllgor Cynghori Rhianta Corfforaethol fydd ddydd Mawrth 16 Hydref 2018 ond, bydd cyfarfod arall yn cael ei drefnu ym mis Medi.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.45 pm